| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | *Return Journey* |
| Disgrifiad: | Brawddegau disgrifiadol am y Blitz Tair Noson |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Ysgrifennu'n gywir**<br>*** Iaith**<br>Bl3:<br>• defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc<br>Bl4:<br>• defnyddio geirfa bwnc benodol yn annibynnol<br>Bl5:<br>• defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol<br>Bl6:<br>• defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol<br>*** Iaith**<br>Bl3:<br>• defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br>• defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc<br>Bl4:<br>• defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br>• defnyddio geirfa bwnc benodol yn annibynnol<br>Bl5:<br>• defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br>• defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol<br>Bl6:<br>• defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br>• defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol<br><br>***Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen**<br>Bl3:<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>• defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad<br>Bl4:<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir<br>• defnyddio cysyllteiriau i ddangos cysylltiadau o fewn brawddegau<br>Bl5:<br>• defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol, gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos<br>• defnyddio'r amodol i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd |

| | |
|---|---|
| | Bl6:<br>• defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith |
| Testun Dylan Thomas | *Return Journey*<br>- p73 hyd at " …wicked February Morning"<br>- p77 O "I went out of the hotel into the snow…" hyd at p78 "…Edwardian holy of best-bitter holies…" |
| Offer angenrheidiol: | • Clipiau ffilm ar Blitz Llundain ac Abertawe<br>http://www.rockandrollpoet.co.uk/videos.html<br>• Pensiliau neu feiros lliw |
| Trefn a awgrymir: | • Gwyliwch y clipiau ffilm uchod a thrafodwch sut roedd hi yn Abertawe cyn, yn ystod ac ar ôl y bomio dros dair noson.<br>• Darllenwch ddarnau *Return Journey* eto gan dynnu sylw at sut mae'r awdur yn defnyddio iaith greadigol.<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar ddisgrifiadau Dylan o'r adeiladau *"Fish frailed, netbagged, umbrella'd…"* Ai geiriau go iawn ydy'r rhain? Beth yw eu hystyr, tybed? Pa ddelweddau y maen nhw'n eu cyfleu?<br>• Mewn parau, gallai'r dysgwyr fraslunio a labelu darlun o sut roedd strydoedd Abertawe yn edrych neu gallent labelu ffotograffau o adeiladau wedi'u bomio yn yr Ail Ryfel Byd.<br>Beth fyddech chi'n ei weld? Beth fyddech chi'n ei glywed? Beth fyddech chi'n ei arogli? ac ati<br>Gellid ysgrifennu'r enwau'n goch, yr ansoddeiriau'n las, y berfau'n oren a'r adferfau'n borffor.<br>• Wedyn, a all bob pâr ddod â rhai o'r geiriau hyn ynghyd i ysgrifennu brawddeg ddisgrifiadol am yr hyn y gallant ei weld?<br>• Casglwch frawddeg gan bob pâr a'u rhoi at ei gilydd i wneud cerdd ddosbarth. |
| Cysylltiadau perthnasol: | Gwefannau sydd â disgrifiadau a darluniau o'r Blitz 3 noson<br>http://www.southwales-eveningpost.co.uk/PICTURES-Swansea-Blitz-1941/story-20650279-detail/story.html<br><br>http://www.explore-gower.co.uk/explore/swansea/world-war-ii<br><br>http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=42116<br><br>Fideo ar y wefan hon:<br>Blitz Tair Noson Abertawe<br>https://www.youtube.com/watch?v=H6v0Z4RYhlo |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau estyn: | A all pob pâr ysgrifennu cerdd fer gan ddefnyddio eu nodiadau?<br>Gallwch arddangos eich ansoddeiriau drwy eu gosod ar hen ffotograff o adeilad wedi'i fomio gan ddefnyddio ap *Wordfoto* neu *Typedraw*. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gallai dysgwyr gwaelod Cyfnod Allweddol 2 gwblhau'r gweithgaredd hwn fel gweithgaredd dosbarth cyfan yn hytrach na gweithgaredd grwpiau neu efallai y bydd angen i'r athro roi rhagor o enghreifftiau. Hefyd gallen nhw ddewis defnyddio enwau ac ansoddeiriau'n unig ar gyfer y disgrifiadau. |